

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 27 Chwefror 2002

**Amser:** 11.30am i 3.30pm

**Lleoliad:** Neuadd y Dref, y Rhyl

**Presennol:** **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams (**Cadeirydd**) Brycheiniog a Maesyfed

Geraint Davies Rhondda

Brian Gibbons Aberafan

Brian Hancock Islwyn

Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

David Melding Canol De Cymru

**Yn Bresennol:**

Sally Rees Gweithiwr Maes Gofalwyr, rhiant a Chadeirydd  
Rhwydwaith Cydlynu Gofal y DU

Elin Ifan Rheolwraig Cymdeithas Spina Bifida a  
Hydroseffalws yng Nghymru

Liz Pugh Dirprwy Brif Athrawes, Ysgol y Gader, Dolgellau

Dr Adele Kelly Pediatriydd Cymunedol Ymgynghorol,  
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru

Dr Carys Graham Pediatriydd Cymunedol Ymgynghorol,  
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru

Jenny Rainsbury	Chwaer Nyrsio Ysgol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Cath Swales	Chwaer Nyrsio Ysgol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Allan Evans	Cydlynnydd, Cychwyn Cadarn Gwynedd
Liz Hewett	Ysgrifennydd Bwrdd, Coleg Brenhinol y Nyrsys
Dawn Holloway	Nyrs Blant Gymunedol Cychwyn Cadarn, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
Marie Bodycombe-James	Darlithydd mewn Iechyd Plant, Prifysgol Cymru, Abertawe
Fiona Smith	Nyrs Gynghorol Bediatrig, Coleg Brenhinol y Nyrsys
<b>Swyddogion</b>	
Chris Burdett	Is adran Plant a Theuluoedd
Peter Lawler	Isadran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol
Martin Price	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
<b>Ysgrifenyddiaeth:</b>	
Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

## **Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rod Richards a Lynne Neagle a hefyd Gwenda Thomas a Cynog Dafis, a wahoddwyd i gynrychioli buddiannau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a gadeirir ganddynt yn y drefn honno.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y trafodaethau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Brian Gibbons, meddyg teulu cofrestredig ac yn briod â gweithiwr cymdeithasol gofal plant;
- Brian Hancock, ymgynghorydd ar iechyd galwedigaethol, diogelwch a'r amgylchedd;

- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe

## **Eitem 2: Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig**

### **Papurau: HSS-06-02(p.1a – p.1f)**

2.1 Ar ôl ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i lythyr ymgynghori'r Pwyllgor dyddiedig 22 Hydref 2001, gwahoddwyd nifer o sefydliadau gwirfoddol a statudol i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

#### Sally Rees, Gweithiwr Maes Gofalwr

- Roedd yn bwysig i rieni wybod beth oedd yn bod ar eu plentyn. Roedd sgrinio a diagnosis cynnar ac ymyrraeth ddi-oed yn hanfodol.
- Nid oedd rhieni yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn rhan o'r tîm a oedd yn gofalu am eu plentyn ac eithrio mewn ardaloedd lle câi gofal ei gydlynu, ac yn aml roeddent yn teimlo bod penderfyniadau yn cael eu gwneud heb yn wybod iddynt. Roedd bod yn rhan o dîm yn bwysig iawn i rieni ac yn helpu i leihau nifer yr adolygiadau a'r ymgynghoriadau yr oedd yn rhaid iddynt fynd iddynt.
- Roedd yn bwysig gwranddo ar rieni, am eu bod yn adnabod eu plant yn well na neb arall.
- Roedd y ffordd y câi iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg eu cydlynu yn amrywio ar draws Cymru. Mewn rhai ardaloedd, fel Wrecsam, roeddent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd cydweithio yn bwysig iawn ac hebdo, roedd gwasanaethau a chymorth i deuluoedd yn aml yn chwalu.
- Yn anffodus, ceir diwylliant o hyd lle mae "y sawl a wnaiff y sŏn mwyaf a gaiff sylw".
- Ar ôl i anghenion plant gael eu hasesu dylai adnoddau fod ar gael ar unwaith i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn aml ni ddigwyddodd hynny.
- Nid oedd angen llawer o arian i sefydlu'r broses o gydlynu gofal ond roedd angen parodrwydd ac ymrwymiad pawb a oedd ynghlwm. Ar hyn o bryd, ymddengys fod diffyg parodrwydd i gydweithio.
- Roedd Gwasanaeth Nyrsio Plant Diana yn fuddiol i rieni. Roedd nid yn unig yn cynnal triniaeth ymwithiol yn y cartref, sy'n golygu nad oes rhaid derbyn plant i'r ysbyty mor aml, ond roedd hefyd yn rhoi cymorth amhrisiadwy.
- Roedd rhieni yn pryderu am faint o amser y gallai gymryd i gael diagnosis ar gyfer eu plant, yn enwedig pan oeddent yn gwybod bod rhywbeth yn bod arnynt ond ni allent ddarbwylllo eu meddyg teulu nac ymgynghorydd am hynny.
- Roedd rhoi gwybodaeth a'r ffordd yr oedd yn cael ei chyfleu yn bwysig. Weithiau nid oedd ymgynghorwyr pediatrig yn mesur faint yr oedd y rhiant yn ei ddeall.
- Yn anochel, nid ystyriwyd brodyr a chwiorydd bob amser, ond roedd yn bwysig ystyried eu teimladau hwy a hefyd sicrhau eu bod yn deall beth oedd yn bod ar eu brawd neu eu chwaer. Roedd yn anodd iawn i frawd neu chwaer, nid oedd modd gwneud nifer fawr o weithgareddau neu roedd yn rhaid eu cynllunio ymlaen llaw. Roedd grwpiau o frodyr a chwiorydd yn ddefnyddiol dros ben ac yn rhoi rhwydwaith o gymorth a ffrindiau a oedd yn deall y problemau yr oeddent yn eu hwynebu.

- Dylid darparu cwnsela ar gyfer rhieni yn gynnar a dylai fod yn broses barhaus.
- Roedd yn aml yn anodd i rieni gyfaddef bod angen cymorth arnynt, ond gallai rhywfaint o ofal seibiant dros nos helpu teuluoedd i ymdopi'n well. Roedd darpariaeth gofal seibiant yn amrywio ar draws Cymru ac roedd angen darpariaeth decach.
- Roedd rheini yn ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth a chymorth. Roedd rhai enghreifftiau gwych o rieni yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau i'w plant lle roedd bylchau yn y gwasanaethau a ddarparwyd.

### Cymdeithas Spina Bifida a Hydroseffalws (ASBAH)

- Roedd brodyr a chwiorydd yn hoffi bod yn rhan o'r gwaith o ofalu am eu brodyr a'u chwiorydd ond roeddent am gael dewis ynghylch pryd a ble, fel y gallent fyw eu bywydau eu hun.
- Roedd angen i rieni fod yn ymwybodol o anghenion brodyr a chwiorydd a hefyd beidio â theimlo'n euog am dreulio amser gyda'u plant eraill
- Roedd y ddarpariaeth o gwrsela cyn-geni yn anghyson ac yn aml teimlid nad oedd yn ddiuedd, gyda darpar-rieni yn teimlo dan bwysau i derfynu'r beichiogrwydd. Bu achosion lle nodwyd problemau mwy difrifol mewn sganiau cynnar nag yr oedd yno mewn gwirionedd ar enedigaeth.
- Yn ôl profiad y Gymdeithas nid oedd y rhieni yn cael fawr o wybodaeth am Spina Bifida naill cyn neu ar ôl y geni. Os aeth plentyn i Ysbyty Alder Hey, cynghorwyd y rhieni i gysylltu ag ASBAH, ond gwaherddir ASBAH rhag cysylltu â'r rhieni yn gyntaf.
- Gallai hydroseffalws ddatblygu ar unrhyw adeg ac mae'n bosibl na chaiff ei ganfod.
- Gweithiai ASBAH yn agos gyda'r Ganolfan Datblygiad Plentyn ym Mangor i wella'r pecyn gofal.
- Ceid problemau yn aml am nad oedd ffisiotherapyddion yn gallu cael gafael ar yr offer addas.
- Gallai ffisiotherapi atal cyflwr rhag dirywio ond roedd y gwasanaeth o dan bwysau mawr ac roedd adnoddau yn brin.
- Roedd yn anodd cael addasiadau i'r tŷ o safon dda a chymerai amser hir i asesiad o angen gael ei wneud. Yn aml câi camgymeriadau syml gydag addasiadau effaith sylweddol.
- Nid oedd adrannau tai yn deall yr anghenion sy'n gysylltiedig â rhai anableddau yn ddigonol ac roedd angen arweiniad arnynt ynghlŷn ag addasu neu adeiladu tai addas.
- Roedd oedi cyn darparu cadeiriau olwyn ac nid oeddent wedi'u hadeiladu'n benodol ar gyfer plant. Roedd ar blant angen symud o gwmpas yn gyflym a chadw wyneb gyda'u cyfoedion drwy gadair olwyn a oedd yn edrych yn dda.

2.2 Dywedodd y Gweinidog fod canllawiau cenedlaethol ar sgrinio cyn-geni i Gymru gyfan wrthi'n cael eu paratoi. Roedd ymgynghoriad â'r Adran Iechyd gan fod llawer o bobl yn cael gwasanaethau yn Lloegr. Roedd Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o gadeiriau olwyn a gwasanaethau ac roedd defnyddwyr, gan gynnwys pobl ifanc, yn cymryd rhan ynddo.

### Ysgol y Gader

- Yn yr ysgol, roedd athrawon *in loco parentis* ac yn pryderu'n fawr iawn am nad oeddent yn gallu ymateb yn gyflym i ddiwallu anghenion plant â chyflyrau meddygol oherwydd diffyg gwybodaeth a hyfforddiant.
- Ni fyddai meddygon yn rhoi gwybodaeth i'r ysgolion ynglŷn â chyflwr meddygol disgybl. Weithiau dywedai rhieni wrth yr ysgol, ond yn aml roedd y wybodaeth yn ddryslyd neu'n anghyflawn, tra bod rhieni eraill yn dewis peidio â rhoi unrhyw wybodaeth i'r ysgol.
- Mae Ysgol y Gader yn trefnu ei hyfforddiant ei hun i sicrhau bod athrawon yn gallu ymdopi â'u disgyblion a oedd yn dioddef o gyflyrau hirdymor megis epilepsi, clefyd y siwgr a dystroffi'r cyhyrau. Gallai'r gwasanaethau iechyd ddarparu hyn yn well.
- Lle roedd athrawon yn cyfeirio plant at seicolegydd addysgol, y seicolegydd a gyfeiriodd y plant ymlaen at y gwasanaeth iechyd. Roedd hyn yn aml yn golygu nad oedd problemau yn cael eu nodi'n gyflym. Pe bai cysylltiad rheolaidd rhwng y tîm meddygol a'r ysgol byddai modd codi problem mewn ffordd lai ffurfiol yn y lle cyntaf a byddai problemau yn dod i'r golwg yn gynt a byddai ymatebion yn fwy effeithiol.
- Cyfeiriwyd plant a oedd yn dangos arwyddion o Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Sylw (ADHD) at seicolegydd addysgol a gyfeiriodd y plant wedyn at y gwasanaeth iechyd. Yna ni chât'r ysgol wybodaeth bellach ac ni ofynnid iddynt roi unrhyw fanylion am welliant i ymddygiad, neu fel arall.
- Oni bai bod gan blentyn ddatganiad o anghenion arbennig ni fyddai unrhyw wybodaeth ysgrifenedig ar gael. Mae ysgolion cynradd yn trosglwyddo gwybodaeth os oes gwybodaeth ganddynt ond ar y cyfan roedd yr ysgol yn ddibynnol ar rieni.
- Roedd nyrs ysgol yn gweithio un awr yr wythnos yn yr ysgol ar y pryd ond roedd ei baich gwaith mor fawr fel nad oedd amser iddi gael trafodaethau ystyrlon gydag athrawon. Roedd nyrsys yn y gorffennol wedi rhoi o'u hamser am ddim i ddarparu gwasanaeth.
- Cyfeiriwyd mwy o blant at seicolegwyr addysgol oherwydd achosion o ddyspracia a amheuir. Yr esboniad posibl am y cynnydd yw y credid mai plant trwsgl oedd llawer o ddiodefwrwr posibl cyn i symptomau'r cyflwr fod yn hysbys.
- Roedd problemau emosiynol ar gynydd. Ni chafodd athrawon unrhyw hyfforddiant mewn cwnsela na rheoli ymddygiad ac ni allent wneud fawr ddim heblaw cysuro neu roi cymorth. Os mai bywyd teuluol oedd wrth wraidd y broblem, roedd yn anodd cynnwys y rhieni heb waethygu'r sefyllfa. Roedd gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn eu Hardegau restr aros o 18 mis ac ni fyddai'n derbyn achosion a gyfeiriwyd gan ysgolion.

### Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru

- Roedd rhestr aros arferol o 40 wythnos ar gyfer asesiad therapi lleferydd ac iaith wedi'i dilyn gan restr aros arall am ymyrraeth. Pe na bai'r gwasanaethau yn cael eu hariannu'n briodol a phe baent yn methu â chyrraedd safonau cydnabyddedig yna ni fyddai therapyddion yn ymgeisio am swyddi yn y maes hwnnw.
- Roedd gan Wrecsam wasanaethau ysgol nyrsio da iawn ond roedd o dan bwysau. Un o'r prif broblemau oedd ariannu gwasanaethau cymorth i deuluoedd.
- Roedd y broses o brynu offer i blant yn gymhleth iawn. Byddai'r trefniadau newydd ar gyfer ariannu ar y cyd o gymorth, ond ni fyddant yn datrys y broblem.

- Roedd yr awdurdod iechyd, drwy grantiau refeniw arbennig, yn ariannu offer ar gyfer plant "costus", yr oedd mwy na 300 ohonynt yng Ngogledd Cymru yn ôl amcangyfrif. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffordd y byddid yn ymdrin â hyn ar ôl i'r awdurdodau iechyd gael eu diddymu.
- Ychydig iawn o gwmnïau a oedd yn gwneud gwaith trwsio a gwaith cynnal a chadw ar offer ac roeddent yn ddrud. Ceid problemau hefyd o ran glanhau offer wedi'u dychwelyd cyn y gellid eu hailddosbarthu.
- Roedd yn anodd olrhain faint o arian a oedd yn cael ei wario ar wasanaethau i blant am fod arian yn cael ei ddarparu gan wahanol fudiadau.
- Byddai llunio partneriaethau strategol yn cynyddu'r baich biwrocraidd ar ymgynghorwyr, gan arwain at lai o glinigau.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r argymhellion yn "Adroddiad Hall", a oedd yn rhagdybio bod pob plentyn yn cael diagnosis ar enedigaeth neu drwy ysbyty tra bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael diagnosis drwy wasanaethau cymunedol mewn gwirionedd. Argymhellodd hefyd y dylid rhoi'r gorau i archwiliadau meddygol cyffredinol pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol a sgrinio rhagweithiol gan ymwelwyr iechyd drwy gysylltu â rhieni plant dwy a thair mlwydd oed drwy lythyr. Roedd angen i ymwelwyr iechyd weld plant.

2.3 Cydnabu'r Gweinidog y gwaith a wneir gan Dr Kelly a'i thîm, yr oedd Rhwydwaith Cydlynu Gofal Wrecsam yn enghraifft ardderchog ohono. Dywedodd y byddai lansio adroddiad Carlile, ynghyd â Fframwaith Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gyfle i ganolbwyntio ar blant. Cytunodd fod angen gwaith cynllunio gweithlu cadarn.

### Cychwyn Cadarn Gwynedd

- Roedd cynllun peilot o'r "Incredible Parenting Programme" a oedd yn gweithio gyda rhieni i wella eu perthynas gyda'u plant yn mynd yn ei flaen. Roedd yn seiliedig ar raglen Americanaidd ac roedd wedi'i phrofi a'i dilysu'n llawn yno. Roedd llawer o'r rhieni a oedd yn rhan o'r rhaglen heb gael llawer o addysg ac yn ei chael yn anodd meithrin perthynas â'u plant ond ar ôl y cynllun peilot gwelwyd bod eu perthynas â'u plant wedi gwella. Ar ddiwedd y rhaglen trefnwyd cwrs cydweithredol a oedd yn dod â rhieni ynghyd ac o ganlyniad sefydlwyd grŵp cymorth.
- Roedd gwaith ar droed i feithrin gwell perthynas â theuluoedd yr oedd yn anodd eu cyrraedd. Roedd rhieni yn aml yn symud yn fynych oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol eu plant.
- Roedd prinder therapyddion lleferydd ond gwneid ymdrechion, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru, Bangor, a cholegau lleol i godi proffil therapyddion lleferydd. Roedd y sefyllfa yn waeth am fod angen therapyddion sy'n siarad Cymraeg.
- Roedd cydberthnasau gyda Chanolfannau Cynghori lleol a'r Asiantaeth Budd-daliadau yn datblygu i geisio llenwi bwlch ym maes rhoi cyngor a chymorth i blant a'u teuluoedd.
- Roedd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ac roedd pawb yn awyddus i symud ymlaen i ddatblygu gwasanaethau Cychwyn Cadarn.

### Coleg Brenhinol y Nyrsys

- Bu enghreifftiau o glinigau o dan arweiniad nyrsys wedi'u harwain gan nyrsys allgyrch arbenigol sy'n gofalu am blant sy'n dioddef o asthma, clefyd y siwgr a thraceotomîau. Gellid defnyddio timau nyrsio plant i ymestyn y gwasanaeth hwn a rhoi cyfle i blant gael triniaeth yn nes at eu cartref.
- Unwaith eto, mynegwyd pryderon ynglŷn ag argymhellion "Adroddiad Hall" a theimlid na allai rhieni bob amser ganfod nad yw eu plant wedi cyrraedd y cam datblygu cywir.
- Ychydig o nyrsys ysgol oedd yn Nyrsys Plant Cofrestredig ac roedd hynny yn arwain at anawsterau yn arbennig i blant ag anghenion iechyd cymhleth am nad oedd y nyrsys yn meddu ar y wybodaeth i roi'r gofal angenrheidiol.
- Roedd angen edrych yn strategol ar y ffordd y câi Nyrsys Plant Cofrestredig eu darparu ac anghenion lleoliadau gofal aciwt a gofal sylfaenol wrth gynllunio gweithlu'r dyfodol.
- Roedd Nyrsys Plant Cymunedol yn tueddu i weithredu fel cydlynnydd gofal plant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn cynnwys rhieni wrth lunio cynllun gofal i'w plentyn. Mewn sawl ardal, fodd bynnag, nid oedd system ffurfiol ar waith ar gyfer gwneud hyn.
- Roedd y ffordd yr oedd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn mynd ati i ariannu ar y cyd yn annigonol mewn rhai ardaloedd ac roedd hyn yn atal plant rhag cael eu rhyddhau o'r ysbyty mor gynnar ag y gellid bod wedi'i wneud am nad oedd darn o offer ar gael.
- Dim ond nifer fach o ardaloedd a oedd â mynegrifau o blant ag anghenion iechyd arbenigol, er bod y wybodaeth hon yn cael ei chasglu ynghyd mewn rhai lleoedd.
- Mewn rhai achosion, gwyddid yn gynnar iawn y byddai angen darn penodol o offer ar blentyn yn y dyfodol. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer eu hanghenion.

2.4 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor.

**Eitem 3: Rheoliadau Cymorth Cenedlaethol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Cymorth Cenedlaethol (Symiau ar gyfer Gofynion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2002 Papur: HSS-06-02(p.5)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog y rheoliadau drafft, a gyfeiriwyd gan y Dirprwy Lywydd i'r Pwyllgor eu hystyried a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Gweinidog a'r Cynulliad erbyn dydd Gwener 1 Mawrth.

3.2 Teimlai Dai Lloyd a David Melding nad oedd y cynnydd arfaethedig yn y terfynau cyfalaf yn adlewyrchu'r cynnydd mewn prisiau tai a bod y lwfans arfaethedig ar gyfer treuliau personol yn annigonol i ddiwallu anghenion pobl mewn llety gofal preswyl. Nid oeddent yn barod i gytuno ar y cynigion heb gael gwybodaeth ar y gost o gynyddu'r terfynau cyfalaf a'r lwfans personol. Gofynnwyd i'r Gweinidog roi'r wybodaeth cyn i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Cynulliad.

3.3 Pleidleisiodd y Pwyllgor ar gynnig i gymeradwyo'r rheoliadau. Roedd nifer y pleidleisiau yn gyfartal a rhoddodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw o blaid y cynnig.

3.4 Rhoddodd Dai Lloyd a David Melding rybudd y byddent yn ceisio diwygio'r rheoliadau pan gaent

eu gosod gerbron y Cynulliad.

3.5 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r problemau a grëwyd gan y Rheolau Sefydlog gyda Phanel y Cadeiryddion a'r Pwyllgor Busnes.

#### **Eitem 4: Cofnodion**

**Papurau: HSS-03-02(min), (HSS-04-02(min) a HSS-05-02(min)**

4.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2002. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4.2 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2002. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4.3 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2002. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

#### **Eitem 5: Papurau i'w Nodi**

##### **Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig: Blaenraglen Waith**

5.1 Nid oedd unrhyw sylwadau ar y flaenraglen waith. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn unol â hynny.

##### **Gwerthusiad o Gynllun Grant Gofalwyr**

5.2 Nododd Brian Hancock yr ymddangosai nad oedd unrhyw bwysoliad ar gyfer pobl heblaw am bobl dros 60 oed yn Atodiad A. Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf.

##### **Strategaeth Gwaith Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

5.3 Gofynnodd Brian Hancock a ellid datblygu ymhellach y model ar gyfer llunio polisiâu a gwerthuso ar sail tystiolaeth. Cytunwyd y byddai'n cyflwyno eu sylwadau ar y Strategaeth ddrafft yn ysgrifenedig i Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru.

##### Gweithredu

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion am y Cynllun Grant Gofalwyr yn ystod y cyfarfod nesaf.



## **Eitem 6: Unrhyw faterion eraill**

### **Sgrinio Cyn-geni**

6.1 Cytunwyd y byddai papur i'w nodi ar sgrinio cyn-geni yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

#### Gweithredu

- Byddai papur i'w nodi yn cael ei baratoi ar sgrinio cyn-geni.